Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: EM/0263/19

Mr Mick Antoniw AC
Cadeirydd Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCLA@assembly.wales

25 Ebrill 2019

Annwyl Mick,

Bil Masnach y DU − Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Hoffwn ddiolch ichi, ac i holl aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am roi o'ch amser, am yr eildro, i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil Masnach y DU.

Rwyf wedi cael cyfle bellach i ystyried eich adroddiad. Ymatebais i sawl pryder oedd gennych yn ystod y drafodaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ond mae dal ychydig o bwyntiau yr hoffwn eu trafod ymhellach.

Dywedoch y byddech yn croesawu ymrwymiad gennym naill ai i gyhoeddi dogfen yn nodi'r holl ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU neu ymrwymiad gennym i sicrhau diwygiad i'r Cytundeb Rhynglywodraethol presennol. Fe welwch ynghlwm wrth y ddogfen hon restr o'r ymrwymiadau a wnaed wrth y blwch dogfennau. Mae'r rhain yn ychwanegol i Ohebiaeth Weinidogol sy'n nodi'r ymrwymiadau a ddisgrifiais yn flaenorol o ran yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach.

Rydych wedi argymell hefyd y dylid diwygio Rheol Sefydlog 30C fel ei bod yn gymwys i'r Bil Masnach, unwaith y bydd yn ddeddf. Er fy mod yn deall y sail resymegol dros wneud hyn, credaf, yng ngoleuni profiadau o'r rhaglen cywiro Offerynnau Statudol, y byddai'n ddefnyddiol ystyried adolygu Rheol Sefydlog 30C yn fwy cyffredinol. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried hyn ymhellach.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn hefyd i roi gwybod ichi am ddatblygiadau pellach o ran Bil Masnach y DU. Fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae'r Bil Masnach wedi cael ei ddarllen am y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

tro olaf bellach yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae sawl gwelliant wedi'i wneud iddo, a hoffwn dynnu eich sylw at ambell un. Dyma'r gwelliannau sydd, yn fy marn i, o fewn cymhwysedd y Cynulliad ac maent wedi'u nodi yn yr Atodiad.

Nid yw gwelliannau 1, 4, 5 a 15 yn newid dim yn gyfreithiol ond yn hytrach maent yn egluro'r hyn a awgrymwyd yn y cymalau fel y'u drafftiwyd yn wreiddiol, neu maent yn symud darpariaethau o un man i'r llall. Am y rheswm hwn credaf, wrth iddo roi ei gydsyniad i'r cymalau gwreiddiol, mae'r Cynulliad hefyd wedi cydsynio i'r newidiadau hyn.

Mae gwelliannau 2, 3, 11 a 13 naill ai'n cyfyngu ar bwerau neu'n dileu pwerau a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol ac nid ydynt yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf. Felly, nid wyf yn ystyried bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y gwelliannau hyn.

Un o effeithiau gwelliant 14 yw ehangu pwerau datganoledig dan y Bil ac felly nid wyf yn meddwl bod y Cynulliad wedi cydsynio i'r newid hwn wrth iddo roi ei gydsyniad gwreiddiol. Fel arfer, byddwn yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer gwelliant o'r math hwn ond yn realistig nid wyf yn rhagweld y byddai amser i gydymffurfio â gweithdrefnau'r Memorandwm. Nid wyf, felly, yn bwriadu gwneud hynny.

Mae gwelliant 16 yn ychwanegu cymal newydd at y Bil sy'n golygu na all Rhannau 1 i 3 ddod i rym oni bai bod Tŷ'r Cyffredin yn cymeradwyo cytundeb ymadael a fframwaith ar gyfer meithrin cysylltiadau yn y dyfodol o dan Adran 13 o'r Ddeddf Ymadael, neu'n cymeradwyo ymadael heb gytundeb na fframwaith. Dyma welliant gan yr wrthblaid ac felly mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU am ei wrthdroi pan fydd yn dychwelyd i'r Tŷ'r Cyffredin. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwelliant hwn.

Yn olaf, yn ystod y drafodaeth cadarnheais y byddwn yn fodlon cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar rôl yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach. Byddaf yn cyhoeddi'r datganiad hwn yn fuan.

Yr eiddoch,

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Atodiad 1 - Gwelliannau'r Tŷ'r Arglwyddi yn ystod y cyfnod adrodd yr ystyrir eu bod o fewn cymhwysedd

Rhif	Esboniad	Sylwadau
1	Yn newid pwerau cymal 1 fel y gellir eu defnyddio i addasu deddfwriaeth sylfaenol uniongyrchol yr UE a ddargedwir, yn hytrach na deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.	Nid yw hyn newid dim yn gyfreithiol ond yn hytrach mae'n egluro'r hyn a awgrymwyd yn y drafft gwreiddiol.
2	Yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau cymal 1 fodloni'r gofynion o ran safonau (gweler gwelliant 3).	Gweler isod.
3	Yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau cymal 1 sy'n cynnwys darpariaeth mewn amryfal feysydd i gyd-fynd â mesurau diogelu statudol yn y meysydd hynny, ee lles anifeiliaid.	Yn cyfyngu ar gwmpas pŵer cymal 1 fel mai dim ond darpariaeth sy'n bodloni'r amod newydd hwn y gellir ei gwneud.
4	Yn newid pwerau cymal 2 fel y gellir eu defnyddio i addasu prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, yn hytrach na deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.	Nid yw hyn newid dim yn gyfreithiol ond yn hytrach mae'n egluro'r hyn a awgrymwyd yn y drafft gwreiddiol.
5	Yn datgan mai dim ond i wneud darpariaeth ar gyfer cosbau sifil y gellir defnyddio pwerau cymal 2.	Nid yw hyn newid unrhyw beth yn gyfreithiol ond mae'n egluro'r hyn fyddai'r sefyllfa wedi bod dan y drafft gwreiddiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

11	Yn dileu cymal 6 (Cyfranogiad y DU yn rhwydwaith rheoleiddio meddyginiaethau Ewrop). Yn ychwanegu cymal yn ei le.	Yn dileu pŵer a nodwyd yn y memoranda gwreiddiol. Nid yw'n gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf.
13	Yn dileu awdurdod i reoliadau dan gymalau 1 a 2 gael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael os ydynt yn addasu mathau penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir, cyhyd â'u bod yn dod i rym ar ôl y diwrnod ymadael.	Yn dileu pŵer a nodwyd yn y memoranda gwreiddiol. Nid yw'n gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf.
14	Mae hyn yn newid y diffiniad o 'is-ddeddfwriaeth' a ddefnyddir yn y Bil fel ei fod yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir dan Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad.	Y brif effaith yw datgymhwyso rhai o'r cyfyngiadau ar bwerau Gweinidogion Cymru os oes ganddynt bŵer dan Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad i fod yn gallu gwneud yr un peth heb fod yn gaeth i'r cyfyngiadau hynny (yn fras). At ei gilydd, ymddengys yn debygol bod gan y Cynulliad gymhwysedd i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau, ond nid yw'n ofynnol iddo geisio cydsyniad y DU cyn gwneud rheoliadau nac i arfer pwerau ar y cyd gyda Llywodraeth y DU. Mae hynny ar y sail bod y modd o gael cydsyniad ac arfer pwerau ar y cyd yn debygol o gynnwys gosod swyddogaeth ar Weinidogion y DU, pan fo ymgynghoriad yn llai tebygol o gynnwys hynny. O ystyried hynny, gellir dadlau bod y gwelliant o fewn cymhwysedd i'r graddau ei fod yn datgymhwyso'r gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r Bil Masnach os gallai Gweinidogion Cymru wneud yr un peth mewn rheoliadau dan Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad. Mae hyn yn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru dan y Bil ac felly nid yw'n cael ei gynnwys yn y memoranda blaenorol.
15	Yn symud y diffiniad o gyfraith ddomestig o'r Atodlen sy'n ymdrin â phwerau datganoledig i brif adran ddehongli'r Bil.	Nid yw'r newid hwn yn newid dim yn gyfreithiol.
16	Yn ychwanegu cymal newydd fel nad yw Rhannau 1 i 3 yn dod i rym oni bai bod Tŷ'r	Nid yw'n welliant gan Lywodraeth y DU. Monitro wrth fynd nôl ac ymlaen rhwng y dau Dŷ.

	Cyffredin yn cymeradwyo cytundeb ymadael a fframwaith ar gyfer meithrin cysylltiadau yn y dyfodol dan Adran 13 o'r Ddeddf Ymadael, neu'n cymeradwyo ymadael heb gytundeb na fframwaith.	